# Cyngor Adnewyddu'r Economi

# Papur gan y Gweithgor Gweithredol

## Diben

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor Adnewyddu'r Economi am waith y Gweithgor Gweithredol a nodi rhai cynigion ar gyfer y dyfodol.

## Gweithredu

2. Gofynnir i'r Cyngor Adnewyddu'r Economi gytuno â'r argymhellion sydd yn y Papur hwn.

## Cefndir

3. Yn ystod ei gyfarfod ym mis Mehefin 2014 cytunodd y Cyngor ar bapur ynghylch ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Un o'r argymhellion oedd y dylid creu Gweithgor ar ei newydd wedd, a fyddai'n cynnwys newidiadau i aelodaeth yn ogystal â newidiadau i'w rôl a'r modd yr oedd yn cyfathrebu ag aelodau'r Cyngor ehangach.

4. Yn dilyn y cytundeb hwn, ffurfiwyd Gweithgor Gweithredol newydd i gefnogi'r Cyngor. Mae'r cylch gorchwyl llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

5. Nodwyd mai prif amcan y Gweithgor fyddai cefnogi amcan y Cyngor Adnewyddu'r Economi, sef gwella economi Cymru, drwy gydweithio i nodi cynigion i hybu datblygu economaidd; ystyried gweithgareddau holl gyrff Llywodraeth Cymru sy'n ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol; adolygu cynnydd o ran y Fframwaith Economaidd; sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen fel y bo'n briodol; argymell eitemau i'w cynnwys ar agendâu'r Cyngor Adnewyddu'r Economi a symud camau gweithredu dilynol yn eu blaen.

6. Byddai'r Gweithgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, gyda'r opsiwn i gyfarfod yn amlach i drafod materion penodol fel y bo angen. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, tri chynrychiolydd o Commerce Cymru a thri chynrychiolydd o TUC Cymru. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, byddai TUC Cymru yn cynnig un o'i seddi i Ganolfan Cydweithredol Cymru er mwyn ei gwneud yn bosibl i safbwynt mentrau cymdeithasol gael ei gynnwys mewn trafodaethau. Byddai'r modd yr oedd y Gweithgor Gweithredol yn gweithredu'n cael ei adolygu ar ôl blwyddyn er mwyn darganfod i ba raddau y mae wedi gallu cyflawni ei gylch gorchwyl.

## Cynnydd

7. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gweithgor Gweithredol newydd ar 25 Tachwedd 2014. Ers hynny, mae'r Gweithgor Gweithredol wedi cyfarfod chwe gwaith, ac mae wedi trafod y canlynol:
   a) Caffael
   b) Fframwaith Economaidd Llywodraeth Cymru
   c) Sgiliau
   ch) Trechu tlodi

# Cyngor Adnewyddu'r Economi

d) Rheoleiddio gwell
dd) Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd
e) Busnes Cymru
f) Cyllideb Llywodraeth y DU
ff) Ymgyrch TUC Cymru, 'Swyddi Gwell yn nes at Adref'
g) Dinas-ranbarthau
ng) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
h) Twf economaidd
i) Y Cyflog Byw.

8. O'r pynciau yr ymdriniwyd â nhw, mae ystyriaeth fanwl wedi'i rhoi i Gaffael ac i faes sy'n gysylltiedig â hynny, sef Trechu Tlodi.

**Adolygu**

9. Roedd y cylch gorchwyl yn nodi y dylai'r modd yr oedd y Gweithgor Gweithredol yn gweithredu gael ei adolygu ar ôl blwyddyn. Mae bellach yn bryd cynnal yr adolygiad hwnnw, a bydd yn eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor Gweithredol. Fodd bynnag, caiff sylwadau gan aelodau'r Cyngor eu croesawu ar gyfer yr adolygiad o'r modd y mae'r Gweithgor Gweithredol yn gweithredu, yn ogystal â sylwadau ynghylch unrhyw beth arall y gallai neu y dylai'r Gweithgor Gweithredol fod yn ei wneud i gefnogi gwaith y Cyngor. Bydd papur ynghylch yr adolygiad o'r Gweithgor Gweithredol yn bapur i'w nodi yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

**Edrych ymlaen**

10. Gan y bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai, roedd y Gweithgor Gweithredol yn teimlo'n gryf y dylid cynnal y cyfarfod hwnnw'n fuan yn nhymor y Llywodraeth newydd er mwyn trafod economi Cymru a chyfeiriad strategol ar gyfer y dyfodol. Y teimlad oedd y dylid pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod hwnnw'n awr. Teimlid hefyd y byddai cynnal cyfarfod o'r Cyngor yn fuan yn rhoi cyfle i'r Cyngor nodi sut y gall weithio gyda'r Llywodraeth wrth symud ymlaen.

**Argymhellion**

**I'r Cyngor eu hystyried**

**Gofynnir i'r Cyngor gytuno â'r argymhellion canlynol:**

**A. Dylai aelodau'r Cyngor gael eu gwahodd i gyfrannu eu barn am y modd y mae'r Gweithgor Gweithredol yn gweithredu, yn rhan o'r broses o'i adolygu.**

**B. Dylid cytuno'n awr ar ddyddiad i'r Cyngor gyfarfod yn fuan ar ôl i dymor y Llywodraeth newydd ddechrau.**

**C. Dylai'r cyfarfod uchod gael ei ddefnyddio fel cyfle i drafod economi Cymru a chyfeiriad strategol ar gyfer y dyfodol, ac fel cyfle i'r Cyngor nodi sut y gall weithio gyda'r Llywodraeth wrth symud ymlaen.**

# Cyngor Adnewyddu'r Economi

**Atodiad 1**

## Cylch Gorchwyl Gweithgor Gweithredol y Cyngor Adnewyddu'r Economi

**Diben**
Cefnogi amcan y Cyngor Adnewyddu'r Economi, sef gwella economi Cymru. Yn benodol:

- Cydweithio i nodi cynigion i hybu datblygu economaidd.
- Ystyried gweithgareddau holl gyrff Llywodraeth Cymru sy'n ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y polisïau y mae Llywodraeth Cymru yn eu mabwysiadu'n cyd-fynd â dull llywodraeth gyfan o wella'r economi. Rhoi gwybod i'r Gweinidogion priodol, ac egluro rhychwant unrhyw waith, cyn bod adolygiadau o weithgareddau o fewn cyfrifoldebau eu portffolios yn cael eu hystyried.
- Adolygu cynnydd o ran y Fframwaith Economaidd.
- Sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen fel y bo'n briodol.
- Argymell eitemau i'w cynnwys ar agendâu'r Cyngor Adnewyddu'r Economi.
- Symud y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfodydd y Cyngor Adnewyddu'r Economi yn eu blaen.
- Cynghori ynghylch gweithredu'r Cynllun Busnes, a llywio'r gwaith hwnnw.
- Cyfleu gwaith y Cyngor Adnewyddu'r Economi a'i Weithgor Gweithredol i bartneriaid cymdeithasol fel y diffinnir yn y Cynllun Busnes.

**Teitl**
Gweithgor Gweithredol y Cyngor Adnewyddu'r Economi.

**Aelodaeth**
- Cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru
- Tri chynrychiolydd o Commerce Cymru
- Tri chynrychiolydd o TUC Cymru.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, bydd TUC Cymru yn cynnig un o'i seddi i Ganolfan Cydweithredol Cymru er mwyn ei gwneud yn bosibl i safbwynt mentrau cymdeithasol gael ei gynnwys mewn trafodaethau. Caiff yr aelodaeth ei hadolygu ar ôl blwyddyn er mwyn penderfynu a ddylai'r sector mentrau cymdeithasol gael un cynrychiolydd, yn ei rinwedd ei hun, yn ogystal â'r tri chynrychiolydd o Commerce Cymru a'r tri chynrychiolydd o TUC Cymru.

**Amlder cyfarfodydd**
Cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, gyda'r opsiwn i gyfarfod yn amlach i drafod materion penodol fel y bo angen.

**Gweithredu cyfarfodydd**
Y trefniadau a'r papurau i'w dosbarthu gan Lywodraeth Cymru/Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru.

# Cyngor Adnewyddu’r Economi

**Adolygu**
Bydd y modd y mae Gweithgor Gweithredol y Cyngor Adnewyddu’r Economi yn gweithredu’n cael ei adolygu ar ôl blwyddyn er mwyn darganfod i ba raddau y mae wedi gallu cyflawni ei gylch corchwyl.